**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Craffu – Cynllunio ar gyfer argyfyngau a Chydnerthedd

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 11 Hydref 2017 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| S J Gallagher | T J Hennegan | P Jones |
| S Pritchard | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Gimblett | Rheolwr Iechyd, Diogelwch, Rheoli mewn Argyfwng a Lles Corfforaethol |
| Bethan Hopkins | Scrutiny Officer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C L Philpott
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Trosolwg Cynllunio ar gyfer Argyfyngau a Chydnerthedd**

- Daeth Craig Gimblett, Rheolwr Iechyd, Diogelwch, Argyfyngau a Lles Corfforaethol, i roi trosolwg i'r panel yn ogystal â'r diweddaraf am ei wasanaeth.
- Nododd aelodau'r panel eu siom bod yr hen Gydbwyllgor Cydnerthu gyda Chastell-nedd Port Talbot wedi cael ei ddiddymu heb ymgynghoriad
- Roedd y panel o'r farn y dylai pwyllgor fod ar waith i ymwneud â phwnc mor bwysig
- Nododd Craig fod gan Abertawe heriau gwahanol o ran perygl
- Mae Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn rhannu rhai gwasanaethau a byddai'r ddau'n cynorthwyo ei gilydd mewn argyfwng
- Mae'r adran yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau bwrdd gwaith ac ymarferol
- Mae'r adran yn cydgysylltu â Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a Heddlu De Cymru ac mae ganddi berthnasoedd da â rhanddeiliaid eraill

- Petai digwyddiad, byddai'r adran yn cefnogi gwasanaethau argyfwng eraill a byddai ganddi bresenoldeb amlwg yn y gymuned
- Mae'r adran hefyd yn cynllunio ac yn asesu peryglon parhaus a newydd
- Gwneir peth buddsoddiad di-oed yn yr adran er mwyn hwyluso symudiadau a chyfarpar newydd ond cyllideb fach ydyw ar y cyfan
- Trafodwyd sut caiff gwybodaeth ei dosbarthu i gynghorwyr o ran yr hyn i'w wneud mewn argyfwng. Nid yw rhai cynghorwyr wedi cael unrhyw wybodaeth o gwbl
- Trafodwyd cynlluniau Abertawe ynglŷn â pharhad busnes petai digwyddiad
- Dywedodd Craig wrth y panel am ychydig o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud gydag ysgolion, ceidwaid nos a staff canol y ddinas
- Cafodd gwybodaeth am reoli argyfyngau a chydnerthu ei dosbarthu i gynghorwyr yn flaenorol ond nid yw wedi cael ei hanfon at bob cynghorydd fel trefniad safonol
- Disgwylir i'r Ddyletswydd Argyfyngau Sifil Posib gael ei datganoli i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2018. Gallai hyn effeithio ar gymorth ariannol ar gyfer digwyddiadau, ond bydd mwy o wybodaeth ar gael yn ddiweddarach
- Trafododd cynghorwyr faterion ac argymhellion arfaethedig

3 **Trafodaeth a Chwestiynau**

Bu'r Cynghorwyr yn trafod materion ac yn cynnig argymhellion

The meeting ended at 12.05 pm

**Cadeirydd**